166

# CAN NEWYDD,

*O annogaeth i'r Cymry*

I

# DROI MEWN GWEDDI

*At yr ARGLWYDD,*

Am ein harbed rhag ein llwyr ddinystrio

A'R

# Pla sydd yn Tramwy

TRWY EIN GWLAD,

*Yr hwn sydd yn gwneuthur mawr ddychryn trwy Gymru.*

---

Y CYNGOR CANLYNOL

Sydd yn gwellhau agos bawb a darewir â'r CHOLERA MORBUS, os ei cymmerir cyn gynted ag y teimlont y clefyd yn ymaflyd ynddynt, sef,

*Un wns o Castor Oil,*
*Ugain dyferyn o Laudanum, a*
*Hanner gwydriad o Frandi Ffrengig.*

Curwch hwynt yn nghyd gyda fforch, ac yfwch ef, ac ewch i'r gwely.

---

1. YMOSTYNGWN Gymry hawddgar
Ag un galon ewyllysgar,

I roddi mawl i Dduw yn ddiwyd,
Am ein bod ar dir y bywyd.

2. Pechodau'n hoes sy'n galw am ddial,
A'n herchyll ddrygau mawrion, amal;
A thynasant farn o'r nefoedd
I lwyr ddinystrio amryw filoedd.

3. Dwys fu damnio bro Sodoma,
A'r gydmares ddrwg Gomorra,
Ond eu dwfn lygredig anian
Fu'r achos oll o'r tân a'r brwmstan.

4. Y Duw a gadwai'i ffyddlon Abra'm,
Ro'i bla ar Dathan ac Abiram;
Os cilia Cymry o ffyrdd sancteiddrwydd,
Pwy wyr pa faint ddistrywia'r Arglwydd.

5. Y gwir a ddengys i ni'n amlwg
Ffyrdd y gelyn garwa'i gilwg,
A fod Duw'r trugaredd i rai ufudd,
Wrth y drwg yn ddigllon beunydd.

6. Bro yr Aipht a golla'i myrddiwn,
Twrc a Rwssia amryw filiwn;
O! a raid, er garwed cerydd,
Daro Brydain, mammaeth crefydd!

7. Os mammaeth crefydd, lloches balchder,
Duw yn bwgwth, eto'n adfer;
Taro eraill, ninau'n clywed,
Er hyny'n ysgafn heb ystyried.

8. I Ffraingc a Spaen, o'r Aipht er penyd,
D'ai swn carnau'r march dychrynllyd,

X205237494

I fedi'n llwyr, medd gwir hanesion,
Fel na cheid byw i gladdu meirwon.

9. Ond er bod gwialen barn i'w gweled
Yn lladd ar hyd y byd heb arbed,
Er hyn ni ymostyngai Brydain
Nes tynu'r pla i'w gwlad ei hunan.

10. Dechreua'n Lloegr yn bell ddigon,
Yn nhref Sunderland er cwynion:
Duw yn taro, Sais yn crynu,
Etto er hyn ni theimlai'r Cymry.

11. Dinas Llundain fawr ga'dd brofi
Pwysau'r farn yn disgyn arni,
A manau lawer gyda hyny,
Ond Duw yn dal i arbed Cymru.

12. Gan na lwydda'i dwys rybuddion,
Marwolaethau yn mysg y Saeson,
Wele'r Arglwydd wedi gyru
Ei bla dinystriol i wlad Cymru.

13. Gymru, Gymru, cais am dristwch
Cyn dy fwrw, ag edifeirwch;
Ystyria'th blant, a gwel dy drallod,
A'r rhif sy'n meirw yn anmharod.

14. 'Does dim all rwystro'r pla dinystriol,
E' fyn ei ffordd yn anorchfygol,
Ond *gweddi daer* mewn gostyngeiddrwydd,
Ffydd a *chariad* at yr Arglwydd.

15. Pan drawyd Flint a Dinbych dirion,
Mewn llefain cryf ymostyngai'r dynion;
Achubwyd rhai fel o borth angau
Mewn attebiad i'w gweddiau.

16. Ond pan mae'r Arglwydd wedi digio,
A dyn yn dal i bechu'n effro,
Pwy all ddirnad yn mhle derfydd
Pwysau dwrn anfeidrol gerydd.

17. Gwraig yn wylo am ei phriod,
Bedd i'w hymyl hithau'n barod:
Wylofain plant sydd am rieni,
A Duw mewn dig yn rhwygo'r rhei'ny.

18. A raid, Gymru fawr ei breintiau,
Dduo gwrid dy ie'ngetid dithau!
A raid gwywo'th flodau tlysion,
A gwneyd dy dir yn feddau'r meirwon!

19. Na raid Gymru deg, gobeithio,
Tro at weddi, mae Duw'n gwrando;
Ar Galfaria e gaed ffynon
A dry dy bla yn iechyd calon.

20. Y Gwr fu'n gwaedu ar le'r Benglog
Sydd yn eiriol dros yr euog:
Mewn angen enaid cais weddio,
Ar Dduw i'th arbed, Wy'n dymuno.

WM. JENKINS.

---o---

*B. Morgan, Argraffydd, Merthyr.*